O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1486 (Cy. 185)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhiw Staerdywyll i Rugog, Corris, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *1 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Rhiw Staerdywyll i Rugog, Corris, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Fferm Rugog i bwynt 110 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Ty'n y Maes.